**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/RE/1163/22

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

11 Mai 2022

**BIL DEDDFAU TRETHI CYMRU etc. (PŴER I ADDASU)**

Annwyl Huw

Diolch ichi unwaith eto am ystyried Bil Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu) yn ystod Cyfnod 1. Rwy'n falch bod egwyddorion cyffredinol y Bil wedi'u cytuno, ac yn hyn o beth, rwy'n diolch i'ch Pwyllgor am eu hargymhellion.

Yn ystod y ddadl ar Egwyddorion Cyffredinol y Bil ar 26 Ebrill, rhoddais gadarnhad y byddwn yn rhoi ymateb manwl i adroddiad Cyfnod 1 eich Pwyllgor a'i 18 o argymhellion. Rwyf wedi nodi fy ymateb i'r argymhellion isod, gan gynnwys manylion ynglŷn â lle rwy'n cytuno bod angen cyflwyno gwelliannau i'r Bil. Rwyf eisoes wedi cyflwyno un gwelliant gan y Llywodraeth, a byddaf yn cyflwyno gwelliannau pellach cyn diwedd y cyfnod cyflwyno.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid.

Rebecca Evans.

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government

Copi at: Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

## Atodiad A
## Bil Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu) – Cyfnod 1

## Argymhellion y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

**Argymhelliad 1.** Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil i'w gwneud yn ofynnol cynnal adolygiad statudol o'r pŵer gwneud rheoliadau yn y Bil o fewn dwy flynedd i'r adeg pan roddir Cydsyniad Brenhinol. Dylai'r adolygiad gynnwys asesiad o'r graddau y mae'r pŵer a roddir i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau wedi'i ddefnyddio

Mae'n bleser gennyf dderbyn argymhellion y ddau bwyllgor mewn egwyddor. Mae'r rhain yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gynnal adolygiad o weithrediad ac effaith y Ddeddf.

Fodd bynnag, rwy'n credu mai'r amser mwyaf priodol ar gyfer adrodd ar adolygiad o'r fath yw ym mlwyddyn gyntaf tymor nesaf y Senedd yn 2026. Bydd hyn yn gymorth i lywio penderfyniadau'r Senedd nesaf o ran y camau nesaf sydd fwyaf priodol. Nod yr adolygiad yw ystyried effeithiolrwydd y Bil hwn. Os dymunai Pwyllgorau gynnal eu hadolygiad eu hunain o'r Bil ar unrhyw adeg cyn hynny, mae hynny, wrth gwrs, yn fater iddyn nhw.

**Argymhelliad 2.** Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil i gynnwys darpariaeth fachlud briodol fel na chaniateir i unrhyw reoliadau newydd gael eu gwneud o dan y pŵer yn adran 1 ar ôl mis Gorffennaf 2027. Bydd hyn yn rhoi digon o amser i Lywodraeth Cymru ddatblygu dulliau mwy priodol o ddeddfu mewn perthynas â threthi datganoledig gan ddefnyddio deddfwriaeth sylfaenol.

Rwy'n derbyn argymhelliad y Pwyllgor i gynnwys darpariaeth fachlud mewn egwyddor. Rwy'n bwriadu cyflwyno gwelliant gan y Llywodraeth na chaniateir gwneud unrhyw reoliadau newydd gan ddefnyddio'r pŵer hwn ar ôl pum mlynedd wedi'r dyddiad y caiff y Bil Gydsyniad Brenhinol.

Fodd bynnag, rwy'n credu ei bod yn bwysig i roi cyfle i'r Senedd nesaf ymestyn bywyd y Ddeddf hyd at uchafswm o 5 mlynedd os yw'r Senedd honno yn credu y dylai'r pŵer barhau mewn grym am y cyfnod estynedig hwnnw. Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy bleidlais gan aelodau i gymeradwyo Gorchymyn a wnaed gan Weinidogion Cymru.

Diben y camau gweithredu hyn yw sicrhau ein bod yn barod i gymryd y camau nesaf a gytunwyd yn ein taith ddatganoli ar adeg benodol yn y dyfodol. Gallai hyn gynnwys parhau i weithredu'r Ddeddf am gyfnod penodol, dileu'r pŵer i wneud rheoliadau pellach, neu gytuno ar unrhyw drefniadau newydd.

**Argymhelliad 3.** Cyn y ddadl Cyfnod 1, dylai'r Gweinidog ddarparu enghreifftiau o amgylchiadau lle byddai'r Gweinidog yn cael ei atal rhag defnyddio'r pŵer a gynigir yn adran 1 o'r Bil o ganlyniad i'r prawf 'priodol'.

Rwyf wedi darparu gwybodaeth am hyn yn fy ymateb ichi cyn cynnal y ddadl Egwyddorion Cyffredinol.

**Argymhelliad 4.** Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i ddileu'r prawf "angenrheidiol neu briodol" o adran 1 o'r Bil.

Nod cyflwyno'r trothwyon "angenrheidiol neu briodol" yn adran 1(1) o'r Bil yw i nodi'r math o ddarpariaeth y gellir ei gwneud gan ddefnyddio'r pŵer. Diben y trothwy "priodol" yw darparu elfen o hyblygrwydd ar gyfer Gweinidogion Cymru i sicrhau bod yr ymateb yn gywir ar gyfer ein dinasyddion a'n trethdalwyr.

Rwy'n cydnabod bod y prawf "angenrheidiol neu briodol" yn un goddrychol a bod hynny'n her i Aelodau wrth iddynt benderfynu a ddylid cefnogi'r pŵer, gan nad yw'n hawdd rhagweld beth y bydd Gweinidogion Cymru'n ei ystyried yn angenrheidiol neu'n briodol yn y dyfodol. Rwy'n gobeithio bod fy llythyr dyddiedig 22 Ebrill mewn ymateb i Argymhelliad 3 wedi bod o gymorth i Aelodau'r Pwyllgor.

Mae rhesymau dilys a phwysig dros gadw'r prawf. Bydd cael gwared ar y prawf yn ein gadael gyda phŵer sydd o leiaf mor eang â'r pŵer sydd eisoes yn y Bil, ond byddwn yn colli'r awgrymiadau a roddir gan y prawf ynghylch beth y gellir defnyddio'r pŵer ar ei gyfer. Bydd Gweinidogion Cymru'n gallu gwneud rheoliadau "ar gyfer neu mewn cysylltiad ag" unrhyw un o'r pedwar diben – a dyna ni. Ni fydd unrhyw ofyniad statudol ar Weinidogion i gredu bod y rheoliadau'n angenrheidiol na'n briodol. Wrth gwrs, bydd rhaid iddynt ddod i gasgliad rhesymegol a dilyn rheolau cyfraith gyhoeddus wrth iddynt benderfynu sut i ddefnyddio'r pŵer ac felly mae'n debygol y byddant yn dod i'r un casgliad – hynny yw, byddant yn gwneud rheoliadau y maent o'r farn sy'n addas ar gyfer un neu fwy o'r pedwar diben.

Yn ogystal, bydd dileu'r prawf yn golygu mai'r unig sail sydd ar gael i herio'i ddefnydd yn y llysoedd fydd y sail cyfraith gyhoeddus gyffredin – ni fydd cyfle i herio ei ddefnydd ar y sail nad oedd y ddarpariaeth yn "angenrheidiol" neu nad oedd yn "briodol" yn unig.

Yn y pen draw byddai'n ofynnol cael cymeradwyaeth y Senedd ar gyfer pob penderfyniad i ddefnyddio'r pŵer, a phob safbwynt ynglŷn ag a yw ei ddefnydd yn angenrheidiol neu'n briodol. Ac, wrth gwrs, byddai'n bosibl i'r holl benderfyniadau hynny gael eu herio yn y llysoedd.

Gan ystyried hyn, rwy'n credu mai cadw'r prawf "angenrheidiol neu briodol" yw'r dull gweithredu mwyaf defnyddiol a thryloyw ac felly ni allaf gefnogi dileu'r prawf.

**Argymhelliad 5**. Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil i gyfyngu ar ystyr "osgoi trethi" yn adran 1(1)(b) drwy gyfeirio at y darpariaethau gwrthweithio osgoi cyffredinol a nodir yn Rhan 3A o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016.

Fel yr wyf wedi rhoi gwybod i'r Pwyllgorau yn flaenorol, er fy mod yn cydnabod y gallai fod yn ddeniadol i gael diffiniad penodol o'r hyn sydd gyfystyr â gweithgarwch osgoi, nid yw'n bosibl i roi cymaint â hynny o sicrwydd. Pe bai'n cael ei ddiffinio fel hyn, mae risg y byddai'r Gweinidogion Cymru'n credu bod y diben yn rhy gyfyngedig. Gallai'r rheini sy'n ceisio plygu'r rheolau hefyd strwythuro trafodion mewn modd sy'n syrthio y tu allan i'r diffiniad mwy cyfyngedig ond a fyddai'n cyflawni canlyniad treth sy'n groes i fwriad y ddeddfwriaeth.

Mae Gweinidogion Cymru eisiau gallu mynd i'r afael ag ystyr ehangaf osgoi trethi ac felly mae'n briodol i beidio â diffinio'r term hwn ac yn hytrach caniatáu i'r ymadrodd "osgoi trethi" fod â'i ystyr cyffredin.

Felly ni allaf dderbyn yr argymhelliad hwn.

**Argymhelliad 6.** Yn amodol ar Argymhelliad 8, dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil i eithrio'r darpariaethau cyffredinol ar wrthweithio osgoi trethi yn Rhan 3A o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 rhag cael eu cynnwys yng nghwmpas y pŵer i wneud rheoliadau yn y Bil.

Rwy'n credu fy mod wedi nodi yn glir yn fy ymateb i Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid cyn y ddadl Egwyddorion Cyffredinol efallai y bydd sefyllfaoedd yn y dyfodol lle gall fod yn angenrheidiol i ddefnyddio'r pŵer hwn i wneud newidiadau i'r darpariaethau cyffredinol ar wrthweithio osgoi trethi yn Rhan 3A o'r Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi. Felly ni allaf dderbyn yr argymhelliad hwn.

**Argymhelliad 7.** O ystyried y graddau posibl y caniateir arfer y pŵer gwneud rheoliadau mewn cysylltiad â'r diben a nodir yn adran 1(1)(d) o'r Bil, absenoldeb esboniad boddhaol ynghylch sut y bydd y pŵer yn cael ei ddefnyddio at y diben hwnnw a'r gydnabyddiaeth nad oes angen wedi codi eto am y pŵer mewn amgylchiadau o'r fath, dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i ddileu adran 1(1)(d) o'r Bil.

Fel gydag Argymhelliad 6, amlinellais yn fy ymateb blaenorol i Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, y sefyllfaoedd yn y dyfodol lle gall fod yn angenrheidiol defnyddio'r pŵer hwn i wneud newidiadau mewn ymateb i benderfyniadau'r llys a thribiwnlys. Felly ni allaf dderbyn yr argymhelliad hwn.

**Argymhelliad 8.** O ystyried y byddai cwmpas y pŵer gwneud rheoliadau a gynigir yn y Bil yn galluogi'r Gweinidog, neu unrhyw Weinidog yn y dyfodol, i addasu unrhyw un o Rannau 1 a 3-10 o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016, ac o ystyried nad oes unrhyw gyfiawnhad nac enghreifftiau i egluro beth y byddai'r pŵer yn cael ei ddefnyddio ar ei gyfer neu beth y gellid defnyddio'r pŵer ar ei gyfer, dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil fel na chaiff rheoliadau o dan adran 1 ddiwygio unrhyw ddarpariaeth a gynhwysir yn Neddf 2016.

Rwyf wedi nodi'n glir yn fy ymateb i Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, cyn y ddadl Egwyddorion Cyffredinol, rai sefyllfaoedd yn y dyfodol lle gall fod yn angenrheidiol defnyddio'r pŵer hwn i wneud newidiadau mewn perthynas â Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016. Hyderaf fod hyn yn rhoi'r cyfiawnhad angenrheidiol y mae aelodau'r Pwyllgor wedi gofyn amdano ac felly nid wyf o blaid derbyn yr argymhelliad hwn.

**Argymhelliad 9.** Cyn y ddadl Cyfnod 1, dylai'r Gweinidog nodi sefyllfaoedd tebygol lle gallai rheoliadau sydd i'w gwneud mewn perthynas â phob un o'r dibenion a restrir ym mharagraffau (a) i (d) o adran 1(1) o'r Bil:

▪ osod treth gwarediadau tirlenwi neu dreth trafodiadau tir yn rhinwedd adran 2(1)(a);

▪ osod neu estyn atebolrwydd i gosb yn rhinwedd adran 2(1)(b).

Rwyf wedi darparu'r wybodaeth ofynnol yn fy ymateb i Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid. Mae'r ymateb hwnnw yn amlinellu nifer o enghreifftiau yn ymwneud â'r tair Deddf Trethi Cymru ar gyfer pob un o'r pedwar prawf diben a sut y gallant effeithio ar swm y dreth gwarediadau tirlenwi neu'r dreth trafodiadau tir sy'n daladwy.

Mewn perthynas â gosod cosb, byddai hynny yn debygol o fod yn bennaf o ganlyniad i ymateb i achos llys (adran 1(1)(d)) neu, i ddiogelu yn erbyn osgoi treth. Er enghraifft, efallai

y cyflwynir cosb newydd sydd wedi'i thargedu tuag at weithgarwch osgoi penodol neu ymddygiad penodol gan drethdalwyr, eu cynghorwyr neu hyrwyddwyr cynlluniau osgoi.

Nid yw cosbau'n effeithio ar y swm a delir i'r Gronfa Gyfunol (adran 1(1) (c)), ac mae'n annhebygol y bydd wedi'i effeithio gan rwymedigaethau rhyngwladol (adran 1(1) (a)).

**Argymhelliad 10**. Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i'r Bil fel bod arfer y pŵer i wneud rheoliadau yn unol ag adran 2(1)(c) yn cael ei gyfyngu:

▪ o ran y diben o dan adran 1(1)(b) sy'n ymwneud ag osgoi trethi, fel na all ddod i rym yn gynt na'r dyddiad y cyhoeddodd Llywodraeth Cymru drwy ddatganiad yn y Senedd ei bwriad i ddeddfu;

▪ o ran y diben o dan adran 1(1)(c) mewn perthynas â newidiadau i dreth ragflaenol, fel na all ddod i rym yn gynharach na'r dyddiad y gwneir y newid perthnasol gan Senedd y DU (neu Lywodraeth y DU, os mai dyna'r achos);

▪ o ran y diben o dan adran 1(1)(d) sy'n ymwneud â phenderfyniad llys neu dribiwnlys, fel na all ddod i rym yn gynharach na'r dyddiad y cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Adroddiad ar Fil Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu) 75 drwy ddatganiad y bydd yn newid y gyfraith yng ngoleuni penderfyniad y llys neu'r tribiwnlys perthnasol (yn ddarostyngedig i Argymhelliad 7).

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor ac rwyf wedi cyflwyno gwelliant gan y Llywodraeth i gyfyngu ar y gallu i ddeddfu yn ôl-weithredol yn ôl dim ond cyn belled â dyddiad cyhoeddiad gan Lywodraeth Cymru mewn achosion lle gallai newid effeithio'n negyddol ar drethdalwyr (pan ddaw treth yn daladwy neu y daw swm uwch o dreth yn daladwy).

**Argymhelliad 11.** Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil i ddarparu na chaiff rheoliadau a wneir o dan adran 1 ddiwygio pwerau gwneud rheoliadau presennol (a/neu eu gweithdrefnau cymeradwyo cysylltiedig) yn Neddfau Trethi Cymru.

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn yn rhannol a byddaf yn cyflwyno gwelliant yng Nghyfnod 2 i gyfyngu ar y defnydd o'r pŵer i wahardd unrhyw newidiadau i'r gweithdrefnau cymeradwyo ar gyfer y pwerau gwneud rheoliadau presennol yn Neddfau Trethi Cymru.

Rwyf o'r farn y bydd cyfyngu ar ddiwygio'r pwerau gwneud rheoliadau presennol yn rhy gyfyngol. Er enghraifft, gallai defnyddio'r pŵer yn y Bil i ddiwygio Atodlen 5 i'r Ddeddf Treth Trafodiadau Tir (trethi preswyl uwch) hefyd arwain at ehangu cwmpas presennol y pŵer gwneud rheoliadau cysylltiedig i gynnwys y newidiadau hynny a wnaed i Atodlen 5).

Yn yr un modd, pe bai'r pŵer yn y Bil yn cael ei ddefnyddio i greu rhwymedigaeth newydd ar drethdalwyr i gyflwyno datganiad, yna byddai'n gyfiawn i ddiwygio adran 52(2) o'r Ddeddf Treth Trafodiadau Tir[1] er mwyn cynnwys darpariaeth newydd yn y rhestr o'r darpariaethau hynny y gellir eu diwygio drwy reoliadau, i addasu'r terfynau amser ar gyfer cyflwyno. Eto, gellir ystyried bod newid o'r fath gyfystyr â diwygio'r pwerau gwneud rheoliadau.

Nid wyf o'r farn bod lefel y cyfyngiad y byddai hyn yn ei olygu, pe bai'r argymhelliad yn cael ei dderbyn yn gyfan gwbl, yn briodol. Hyderaf fod y cyfyngiad arfaethedig ar newid y

[1] Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 (legislation.gov.uk)

weithdrefn, ynghyd â'r amgylchiadau cyfyngedig ar gyfer defnyddio'r pŵer yn y Bil (y profion pedwar diben) a'r cymal machlud yn cysuro'r pwyllgor y bydd diogeliadau digonol yn bodoli.

**Argymhelliad 12.** Os na chaiff Argymhelliad 10 ei dderbyn, dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i'r Bil:
▪ i ddarparu bod rhaid i'r datganiad polisi ar gyfer rheoliadau a wneir o dan adran 1 sydd ag effaith ôl-weithredol (ac unrhyw ddiwygiadau i'r datganiad yn y dyfodol) gael ei osod gerbron y Senedd a'i gymeradwyo ganddi yn ogystal â chael ei gyhoeddi.

▪ i ddarparu mai dim ond yn unol â datganiad polisi a gymeradwyir gan y Senedd y caniateir i'r pŵer yn adran 1 gael ei arfer yn ôl-weithredol

Mae'r argymhelliad hwn yn ddewis arall i argymhelliad 10. Rwyf wedi derbyn argymhelliad 10 mewn egwyddor, felly ni allaf dderbyn yr argymhelliad hwn.

**Argymhelliad 13.** Cyn y ddadl Cyfnod 1, dylai'r Gweinidog esbonio pam na chafodd gweithdrefn uwchgadarnhaol ei chynnwys yn y Bil i alluogi Pwyllgorau'r Senedd i gael digon o amser i gymryd tystiolaeth wrth graffu ar reoliadau y gellir eu gwneud o dan adran 1 o'r Bil.

**Argymhelliad 14.** Cyn y ddadl Cyfnod 1, dylai'r Gweinidog egluro sut y dehonglir "oherwydd brys" wrth ddewis defnyddio'r weithdrefn gadarnhaol 'gwnaed' o dan adran 4 o'r Bil.

Rwyf wedi darparu ymatebion ysgrifenedig i Argymhellion 13 a 14 cyn y ddadl Egwyddorion Cyffredinol. Rwy'n gobeithio bod hyn yn rhoi eglurder.

**Argymhelliad 15**. Rhaid i Femoranda Esboniadol sy'n cyd-fynd â rheoliadau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol 'gwnaed' gynnwys cyfiawnhad llawn dros yr angen i weithredu ar frys.

Rwy'n falch o dderbyn yr argymhelliad hwn y bydd rhaid i Femoranda Esboniadol gynnwys cyfiawnhad llawn dros yr angen i weithredu ar frys os defnyddir y weithdrefn gadarnhaol 'gwnaed' mewn perthynas â'r Bil hwn.

**Argymhelliad 16**. Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil i gyflwyno isafswm cyfnod o 28 diwrnod o fewn y cyfnod o 60 diwrnod y cyfeirir ato yn adran 4(5) o'r Bil i roi amser i bwyllgorau'r Senedd graffu ar reoliadau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol 'gwnaed' cyn y gellir cynnal pleidlais ar reoliadau o'r fath.

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn a byddaf yn cyflwyno gwelliant yng Nghyfnod 2 i gyflwyno isafswm cyfnod o 28 diwrnod o fewn y cyfnod o 60 diwrnod y cyfeirir ato yn adran 4(5) o'r Bil i sicrhau na ellir pleidleisio ar reoliadau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol 'gwnaed' cyn y daw'r cyfnod 28 diwrnod i ben.

**Argymhelliad 17.** Os daw'r Bil yn Ddeddf, dylai Rheolau Sefydlog y Senedd gael eu diwygio i'w gwneud yn ofynnol i gael isafswm cyfnod o 28 diwrnod ar ôl gwneud rheoliadau yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol 'gwnaed' cyn y gellir cynnal pleidlais ar reoliadau o'r fath.

Fel y gwyddoch, mater i’r Senedd yw Rheolau Sefydlog y Senedd, ac nid Llywodraeth Cymru. Dylid cyflwyno unrhyw argymhellion i’r Pwyllgor Busnes i’w hystyried.

**Argymhelliad 18.** Dylai’r Gweinidog gyflwyno gwelliant i’r Bil gan olygu y dylai rheoliadau sydd i’w gwneud yn unol ag adran 1(1)(b) neu adran 1(1)(d) sy’n cael effaith ôl-weithredol fod yn ddarostyngedig i’r weithdrefn gadarnhaol ddrafft yn unig (yn amodol ar argymhelliad 7).

Er mwyn i reoliadau gael eu datblygu o dan y weithdrefn gadarnhaol ‘gwnaed’, mae’n rhaid i Weinidogion Cymru fod yn fodlon bod angen gwneud hynny ar frys. Mae’r trothwy ar gyfer penderfynu osgoi’r weithdrefn gadarnhaol ddrafft arferol yn un cyfyngedig - mae’n brawf caeth o frys *ac* anghenraid. O ganlyniad, mewn achosion lle mae Gweinidogion Cymru, gan weithredu o fewn egwyddorion cyfraith gyhoeddus, yn credu ei bod yn frys ac yn angenrheidiol i ddod â’r ddeddfwriaeth i rym cyn craffu, cynnal dadl a phleidleisio yn y Senedd, rwyf innau hefyd o’r farn mai dyna’r peth cywir i’w wneud, ac nid wyf yn credu bod y weithdrefn gadarnhaol ddrafft yn addas ar gyfer yr amgylchiadau dan sylw.

Yn anorfod, bydd adegau pan y bydd angen newid y gyfraith drethi ar frys mewn ymateb i ffactorau allanol, ac mae’r Bil hwn wedi’i gynllunio i fod yn gam pragmatig i’w gymryd nawr tra rydym yn gweithio tuag at system ar gyfer gwneud newidiadau trethu sy’n iawn i ni yma yng Nghymru.

Yn ogystal, rwyf wedi derbyn y bydd y pŵer yn y Bil wedi’i gyfyngu i ddyddiad cyhoeddi’r newidiadau, i’r graddau y gallai effeithio’n negyddol ar drethdalwyr o ran y dreth sy’n daladwy. Rwyf hefyd wedi nodi yn fy ymateb blaenorol i Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid y sefyllfaoedd yn y dyfodol lle efallai y bydd angen defnyddio’r pŵer hwn i wneud newidiadau yn ymwneud ag adran 1(1)(b) ac adran 1(1)(d) ac mae hyn yn cynnwys sefyllfaoedd lle hoffem ymateb yn gyflym gan ddefnyddio’r weithdrefn gadarnhaol ‘gwnaed’. Rwy’n credu bod y mesurau hyn yn dileu’r angen i wneud rheoliadau cyfyngol ychwanegol ar gyfer mynd i’r afael ag osgoi trethi a mynd i’r afael â phenderfyniadau’r llys drwy reoliadau’r weithdrefn gadarnhaol drafft yn unig. Felly ni allaf dderbyn yr argymhelliad hwn.